# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2017

Amser: 08.30 - 08.56

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Will Whiteley, Llywodraeth Cymru<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Roedd William Whiteley, swyddog o Lywodraeth Cymru, hefyd yn bresennol.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Hysbysodd Jane Hutt y Pwyllgor fod tri datganiad wedi cael eu hychwanegu at agenda'r Cyfarfod Llawn heddiw:
  - Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Adroddiad interim yr adolygiad seneddol ar iechyd a gofal cymdeithasol (45 munud)
  - Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Strategaeth y Gymraeg (45 munud)
  - Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De (30 munud)

- Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai pob pleidlais mewn cysylltiad â Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3.

- Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai egwyl o 10 munud cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 27 Medi 2017 –**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Ar y trywydd iawn? Masnachfraint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru? (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ystyried, a nodwyd y byddai'r Memorandwm yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Hydref 2017.

### 4.2 Rhaglen y ddeddfwriaeth sydd ar ddod

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i dynnu sylw at y ffaith bod Biliau'n cyd-daro ar ddau achlysur gwahanol ac i ofyn barn am allu'r Pwyllgor i reoli'r gwaith o graffu ar Filiau;
- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i ofyn a fyddai gan y Pwyllgor y gallu i ystyried unrhyw ddeddfwriaeth dros y cyfnod, o ystyried ei lwyth gwaith ar adael yr UE;
- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid cyfeirio Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at bwyllgor pwnc yng Nghyfnod 1 ac yn ôl i'r un pwyllgor yn ystod Cyfnod 2;

- Nododd y Rheolwyr Busnes y Biliau y bwriadwyd eu cyflwyno yn ddiweddarach y Cynulliad hwn.

## 5 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

### 5.1 Amserlen ar gyfer Cyllideb ddrafft 2018-19

Nododd y Pwyllgor Busnes yr amserlen arfaethedig, a chytunodd i ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid fel sy'n ofynnol gan y Rheolau Sefydlog, ac ystyried y mater eto yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i gynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Mawrth 18 Gorffennaf 2017.

## 7 Rheolau Sefydlog

### 7.1 Effaith Deddf Cymru 2017 ar Reolau Sefydlog y Cynulliad: Uwch-fwyafrif

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor y dylai Rheolau Sefydlog gael eu diwygio fel bod:

- rhaid i'r Llywydd wneud datganiad cyn pob Cyfnod 4 yn nodi a yw Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig ai peidio, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf;
- pleidlais yn cael ei chofnodi ym mhob Cyfnod 4, fel ei bod bob amser yn eglur faint o Aelodau sydd wedi pleidleisio o blaid pasio Bil;
- y Cyfnod Ailystyried yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ailystyried Bil sydd wedi cael ei gyfeirio yn ôl i'r Cynulliad gan y Goruchaf Lys oherwydd mater uwch-fwyafrif, ac fel bod modd cyflwyno gwelliannau i Fil yn y cyfnod hwnnw.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn dod â newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog gerbron yn seiliedig ar gasgliadau'r Rheolwyr Busnes.

# 8 Trefniadau cyflwyno

## 8.1 Trefniadau cyflwyno yn ystod toriad yr haf

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes y trefniadau ar gyfer cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn yn ystod toriad yr haf fel y'u nodir ym mharagraff 2 o'r papur ac yn yr atodlen a'r nodyn drafft i'r Aelodau sydd ynghlwm, a chytunwyd ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad, fel y'u nodir ym mharagraffau 3 i 7 o'r papur ac yn y nodyn drafft i'r Aelodau.

Gofynnodd y Clerc i'r Pwyllgor nodi y bydd yr un trefniadau, yn ogystal â bod yn gymwys i'r Swyddfa Gyflwyno, hefyd yn gymwys i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd ar hyn o bryd yng Nghyfnod 2 â'r Swyddfa Gyflwyno yn ailagor yn ystod wythnos olaf y toriad.

# 9 Amserlen y Cynulliad

## 9.1 Papur i'w nodi - Amserlen Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Nododd y Rheolwyr Busnes y newidiadau.

# Unrhyw fater arall

*Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*
Hysbysodd Jane Hutt y Rheolwyr Busnes y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y Bil yn ofalus i benderfynu pa ddarpariaethau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar eu cyfer.

*Cwestiynau amserol hwyr*
Yn dilyn achosion yn ddiweddar pan fu raid i'r Llywydd wrthod ceisiadau gan Aelodau yn ymwneud â chyhoeddiadau a wnaed ar ôl 10.00 y bore hwnnw (oherwydd nad oeddent yn bodloni'r terfyn amser o 10.00 ond y byddent yn amlwg wedi cyrraedd y trothwy o fod yn amserol fel arall), cytunodd y Rheolwyr Busnes i addasu'r canllawiau ar unwaith a chaniatáu ar gyfer y posibilrwydd o dderbyn cwestiynau amserol hwyr mewn amgylchiadau eithriadol.  Byddai'r agwedd hon hefyd yn rhan o'r broses fwy cyffredinol o adolygu cwestiynau yn nhymor yr hydref.